



Astudiaeth Achos Gwenlli Haf Evans

Mae gan Gwenlli Haf Evans ei chwmmi cyfieithu ei hun yng Ngogledd Cymru ac mae hi wedi bod yn dilyn cyrsiau Cyfieithu Ôl-radd TILT yn ddiweddar (2 Fodiwl sy'n 30 Credyd yr un). Dyma hi'n sôn sut mae TILT wedi bod o fudd iddi hi.

A allwch chi roi amlinelliad byr o faes arbenigedd eich cwmni (neu'ch gwaith ar eich liwt eich hun?)

Rwy'n cyfieithu ar fy liwt fy hun, yn ymgymryd â gwaith cyfieithu (Cymraeg>Saesneg a Saesneg>Cymraeg) a gwaith prawf ddarllen, yn y Gymraeg yn bennaf. Nid ydwyf yn arbenigo mewn unrhyw faes penodol. Mae fy mhrofiad yn y byd gwaith yn bennaf yn dod o'r sector gwirfoddol, yn cynnwys: gwaith elusennol; iechyd meddwl; trais yn y cartref; cynaliadwyedd a theithio cynaliadwy. Mae fy rhestr cleientiaid yn gyffredinol yn adlewyrchu'r meysydd hyn. Yn ddiweddar, mae peth galw wedi bod am gyfieithu bwydlenni a rhestrau gwin i'r Gymraeg.

Sut berthynas oedd gennych â'r byd dysgu cyn dilyn y cwrs, ac a yw'r berthynas wedi newid wedyn?

Wedi i mi adael addysg yn dilyn fy arholiadau TGAU, yr unig gyrsiau pellach a astudiais cyn i mi gofrestru ar y cwrs TILT oedd rhai galwedigaethol (NVQ 1 a 3) ynghlwm â'm swydd. Golygai amgylchiadau personol na chefais y cyfle i fynd ymlaen i addysg bellach prif lif, ac rwyf yn y byd gwaith ers 2000. Mae dilyn cwrs cyfieithu TILT wedi bod yn agoriad llygad i mi o ran natur dysgu mewn sefyllfa academaidd, ac mae gen i well dealltwriaeth erbyn hyn o'r ffordd mae'r brifysgol yn gweithredu a theimlaff yn fwy hyderus i fynd ymlaen i astudio'n bellach yn y dyfodol.

Pa fudd fyddwch chi neu'ch cwmni yn ei gael o ddilyn y cwrs?

Rwyf wedi elwa'n fawr o'r cyfle i roi fy sgiliau ar waith, cael adborth ar fannau gwan a dysgu llawer mwy am yr adnoddau sydd ar gael i mi fel cyfieithydd, ac, yn hollbwysig, sut i gael y gorau ohonynt.

Sut glywsoch chi am gyrsiau TILT?

Gan gydweithwraig yn y maes cyfieithu oedd wedi ymholi gyda'r brifysgol am yr hyn oedd ar gael yn gyffredinol o amgylch cyrsiau iaih a chyfieithu..

Pam y bu ichi benderfynu cymryd rhan yn y cynllun?

Penderfynais gymryd rhan gan ei fod yn gyfle gwych i mi gael datblygu fel cyfieithydd - a hynny heb orfod talu ffioedd dysgu (a fyddai wedi fy atal rhag cymryd rhan), ond yn hanfodol i mi, ei fod yn gwrs rhan-amser. Byddai'n amhosib i mi roi'r amser i gwrs llawn-amser gan fy mod eisoes yn gweithio fel cyfieithydd ar fy liwt fy hun, yn gweithio tridiau'r wythnos i fudiad elusennol ac yn magu teulu. Os byddaf yn llwyddo i basio'r cwrs ac ennill cymhwyster, bydd yn ddefnyddiol i mi wrth hyrwyddo fy musnes, gan fod cyfieithydd gyda chymhwyster yn debygol o ennill ffydd y cwsmer.

Beth oedd y peth gorau am y cwrs y buoch chi arno?

Uchafbwyntiau'r cwrs i mi oedd:

1. Y cyfle i weithio ar dasgau cyfieithu a chael awgrymiadau ar gyfer gwella yn ogystal â'r marc - mae hyn wedi fy helpu i adnabod gwendidau a thueddiadau yn fy nghyfieithu a gwella arnynt.
2. Y cyfle unigryw i ddefnyddio meddalwedd Cyfieithu Cymru.

Yn eich barn chi, pa mor bwysig i'r economi yng Nghymru drwyddi draw yw cael cyrsiau wedi'u hariannu'n barod sy'n canolbwyntio ar fusnesau?

Credaf ei bod yn hanfodol fod cwmnïau ac unigolion hunangyflogedig yng Nghymru yn cael y cyfle i elwa o gyrsiau wedi'u hariannu - mae'n ffordd wych o godi lefel sgiliau gweithlu'r wlad, sydd yn ei dro yn galluogi busnesau Cymru i fod yn gystadleuol ar lwyfan genedlaethol a rhyngwladol. Mae costau dysgu yn atal nifer o unigolion preifat, a'r rhai sy'n gyflogedig mewn cwmnïau preifat, rhag dilyn cyrsiau.

O safbwynt y cwrs sgiliau cyfieithu TILT yn benodol, mae'r cyfle i gynyddu sgiliau cyfieithwyr yn golygu fod rhagor o ddarpariaeth cyfieithu o safon yn llifo i'r sectorau cyhoeddus a phreifat, a gorau po fwyaf o hynny sydd ar gael ar y farchnad os ydym am sicrhau fod sefydliadau sy'n chwilio am wasanaethau cyfieithu yn dod o hyd i wasanaethau proffesiynol, cystadleuol, arbenigol. Os cyrhaeddwn sefyllfa ble mae cyfieithu yn cael ei normaleiddio, gallwn ddechrau ystyried fod dwyieithrwydd yn bodoli o fewn sefydliadau ar draws bob sector yng Nghymru.

Pa gyngor fyddai gennych chi i fusnesau neu weithwyr ar eu liwt eu hunain sy'n meddwl dilyn cyrsiau TILT?

Byddwn yn argymhell cwrs cyfieithu TILT i unrhyw gyfieithydd sydd yn dymuno mireinio ei sgiliau, dysgu mwy am y grefft ac ennill cymhwyster adnabyddedig o safon.

Byddwn hefyd yn annog unrhyw un gyda dawn ieithyddol sydd eisiau dysgu cyfieithu i ddilyn y cwrs. Proses wych drwyddi draw, byddai dilyn y cwrs hwn o fudd enfawr i unrhyw weithiwr ar ei liwt ei hun, neu i gyflogeion unrhyw fusnes sydd angen cyfieithwyr.

Mae TILT yn rhan o'r Rhaglen Dysgu yn y Gweithle, a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Cydgyfeiriant Ewrop yr UE drwy Lywodraeth Cymru. Os hoffwch gael mwy o wybodaeth am y cyrsiau eraill a gynigir gan y project, cysylltwch â s.ghazzali@bangor.ac.uk neu ewch ar wefan TILT <http://www.tiltcymru.org.uk/wordpress/bangor/>